**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).**

**This response was submitted to the Reform Bill Committee consultation on the Senedd Cymru (Members and Elections) Bill.**

**SCME(P)20 Ymateb gan: | Response from: Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru**

---

# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Local Democracy and Boundary Commission For Wales

## BIL SENEDD CYMRU (AELODAU AC ETHOLIADAU)
## PWYLLGOR Y BIL DIWYGIO – CRAFFU CAM 1
## YMATEB YMGYNGHORI

***3 Tachwedd 2023***

**TACHWEDD 2023**

# RHAGAIR

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ymateb Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("**y Comisiwn**") i ymgynghoriad Pwyllgor y Bil Diwygio ynglŷn â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 18 Medi 2023 ("**Bil y Senedd**").

Yn y ddogfen hon, mae'r Comisiwn yn ymateb yn gyntaf i gwestiynau penodol a ofynnwyd iddo gan Bwyllgor y Bil Diwygio ("**y Pwyllgor**") ynglŷn ag amserlen debygol arolygu etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026.

Yna, mae'r Comisiwn yn rhoi arsylwadau manwl ynglŷn ag wyth darpariaeth yn yr Atodlenni i'r Bil.

Mae'r Comisiwn yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â datblygu'r Bil.

**Beverley Smith**

**Cadeirydd**


Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
CAERDYDD CF24 0BL
Rhif Ffôn: (029) 2046 4819
enquiries@boundaries.wales
www.ldbc.gov.wales


Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

## COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

## BIL SENEDD CYMRU (AELODAU AC ETHOLIADAU) – YMATEB YMGYNGHORI


RHAGAIR .......... 2

1. YNGLŶN Â'R COMISIWN .......... 4

2. AMSERIAD AROLWG FFINIAU 2026 .......... 4

3. ARSYLWADAU MANWL AR Y BIL .......... 5

Atodlen 1 – cyhoeddi cynrychiolaethau yn dilyn yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau .......... 6

Atodlen 1 – cysylltu â'r cam adroddiad terfynol .......... 7

Atodlen 2 – egwyddor newid lleiafsymiol i etholaethau'r Senedd .......... 8

Atodlen 2 – rheoli amser mewn gwrandawiadau cyhoeddus .......... 10

Atodlen 2 – cynnwys yr ail adroddiad .......... 11

Atodlen 2 – cyhoeddi cynrychiolaethau ar ôl y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau .......... 13

Atodlen 2 – cysylltu â'r cam adroddiad terfynol .......... 13

Atodlen 2 – cynnwys yr adroddiad terfynol .......... 15

Crynodeb – addasiadau awgrymedig y Comisiwn i'r Bil .......... 16

# 1. YNGLŶN Â'R COMISIWN

1.1 Corff annibynnol a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Comisiwn. Fe'i sefydlwyd ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac fe'i hadwaenwyd ar y pryd fel y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Ailenwyd y Comisiwn gan adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("**Deddf 2013**").

1.2 Ar hyn o bryd, prif swyddogaethau'r Comisiwn yw monitro ac arolygu'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru.

1.3 At y diben hwn, mae pwerau'r Comisiwn yn cynnwys arolygu ffiniau ardaloedd prif gynghorau yng Nghymru a'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif gynghorau. Mae gan y Comisiwn bwerau penodol hefyd mewn perthynas ag arolygu ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol cymunedol, er mai'r prif gynghorau sy'n bennaf gyfrifol am yr arolygon hyn yn eu hardaloedd unigol. Amlinellir prif bwerau a dyletswyddau'r Comisiwn yn Neddf 2013.

1.4 Mae Bil y Senedd yn cynnwys darpariaethau a luniwyd i ailenwi'r Comisiwn yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru, a rhoi swyddogaeth ychwanegol i'r Comisiwn arolygu a phennu ffiniau etholaethau'r Senedd. Mae'r Comisiwn yn cefnogi Bil y Senedd o ran egwyddor. Ers i Fil y Senedd gael ei gyflwyno i Senedd Cymru, mae'r Comisiwn wedi craffu ar ei ddarpariaethau, yn ogystal ag ymwneud â pharatoadau cychwynnol ar gyfer swyddogaethau newydd disgwyliedig y Comisiwn.

# 2. AMSERIAD AROLWG FFINIAU 2026

2.1 Gofynnwyd i'r Comisiwn gynnwys trosolwg yn ei dystiolaeth ysgrifenedig o'r dyddiadau dangosol ar gyfer yr arolwg o etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026, a ddylai gynnwys y dyddiad cynharaf amcangyfrifedig pryd y byddai'r arolwg yn gallu dechrau a dyddiadau amcangyfrifedig y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau.

2.2 Wrth gynnal arolygon ffiniau, mae'r Comisiwn yn amlinellu ei bolisïau a'i arferion ar gyfer yr arolwg cyn cyhoeddi unrhyw gynigion. Ar gyfer arolwg cyntaf y Senedd, teitl y ddogfen fydd 'Canllaw i Arolwg 2026' a bydd yn cynnwys gwybodaeth am sut y bydd y Comisiwn yn creu etholaethau, enwi a dynodi etholaethau yn ogystal â ffactorau y bydd yn eu hystyried yn ystod yr ymarfer paru. Cyn cyhoeddi'r canllaw, bydd y Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol a fydd yn cynnwys pleidiau gwleidyddol cymwys ac Aelodau presennol o'r Senedd. Mae'r Comisiwn yn disgwyl cynnal y cyfarfodydd hyn ym mis **Awst 2024.**

2.3 Yna, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei Gynigion Cychwynnol a fydd yn sbarduno'r cyfnod ymgynghori cyntaf a fydd yn para 4 wythnos. Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyhoeddi ei Gynigion Cychwynnol yn ystod yr **w/c 16 Medi 2024.**

2.4 Oherwydd bod llawer o ddiddordeb cyhoeddus mewn ehangu'r Senedd, mae'r Comisiwn yn disgwyl derbyn nifer fawr o gynrychiolaethau. Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn derbyn ymatebion perthnasol i'w gynigion, bydd y Comisiwn yn gosod cwestiynau penodol yn rhan o'r broses ymgynghori. Bydd yn gofyn i ymatebwyr nodi a ydynt yn cytuno â'r parau yn y cynigion a'r rhesymau dros hynny neu, os nad ydynt yn cytuno â'r parau, pa barau amgen y dylai'r Comisiwn eu hystyried a'r rhesymau drostynt. Bydd y cwestiynau ymgynghori penodol yn cynorthwyo'r Comisiwn i drafod y cynrychiolaethau a dderbynnir.

2.5 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori cyntaf ddod i ben, bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd ac yn eu paratoi i'w cyhoeddi. Mae'r broses baratoi yn cynnwys hepgor gwybodaeth adnabyddadwy unigolion preifat a chyfieithu. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau ac mae'n disgwyl cyhoeddi'r cynrychiolaethau o fewn pythefnos cyntaf mis **Rhagfyr 2024.**

2.6 Ar y sail y dylai newidiadau gael eu gwneud i'r trefniadau paru, bydd y Comisiwn yn paratoi ail adroddiad yn amlinellu'r cynigion diwygiedig. Bydd hyn yn sbarduno'r ail gyfnod ymgynghori a fydd yn para 4 wythnos. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi ei ail adroddiad yn ystod yr **w/c 6 Ionawr 2025.**

2.7 Bydd y Comisiwn yn cynnal yr un gweithdrefnau prosesu ag yr amlinellwyd yn 2.5 mewn perthynas â'r cynrychiolaethau a dderbynnir yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori ac mae'n disgwyl cyhoeddi'r cynrychiolaethau yn gynnar ym mis **Mawrth 2025**.

2.8 Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd ac yn paratoi ei adroddiad terfynol. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar **31 Mawrth 2025.**

2.9 Mae'r Comisiwn yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig ag amserlen gywasgedig Arolwg 2026. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yng nghyflwyniad Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Comisiwn, mae'r Comisiwn yn hyderus y gellir cwblhau'r arolwg cyn 1 Ebrill 2025 os darperir adnoddau ariannol priodol.

## 3. ARSYLWADAU MANWL AR Y BIL

3.1 Mae Atodlen 1 y Bil yn gosod darpariaethau manwl ar gyfer cynnal yr arolwg cyntaf o etholaethau'r Senedd gan y Comisiwn, y mae'n rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn 1 Ebrill 2025 (a adwaenir fel "**arolwg ffiniau 2026**"). Mae Atodlen 2 yn gosod darpariaethau manwl ar gyfer arolygon dilynol o etholaethau'r Senedd, gan gynnwys yr ail arolwg y mae'n rhaid iddo gael ei gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2028. Mae adrannau canlynol y ddogfen hon yn amlinellu arsylwadau manwl y Comisiwn ynglŷn â darpariaethau'r ddwy Atodlen hynny.

**Atodlen 1 – cyhoeddi cynrychiolaethau yn dilyn yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau**

3.2 Mae Atodlen 1 yn gosod proses ar gyfer creu etholaethau newydd y Senedd at ddibenion yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026. Mae'r broses honno'n cynnwys cynnal arolwg ffiniau 2026 gan y Comisiwn, a ddilynir gan weithredu canlyniad yr arolwg hwnnw gan Weinidogion Cymru trwy gyfrwng Rheoliadau.

3.3 Mae arolwg ffiniau 2026 yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus dau gam gan y Comisiwn, a fydd yn arwain at gyhoeddi adroddiad terfynol gan y Comisiwn yn cynnwys penderfyniadau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu rhoi ar waith.

3.4 Yn ystod y cam ymgynghori cyntaf, bydd y Comisiwn (a fydd wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg) yn cyhoeddi adroddiad cychwynnol sy'n cynnwys cynigion y Comisiwn ar gyfer etholaethau'r Senedd, ac yna bydd yn gwahodd cynrychiolaethau i ymateb i'r adroddiad cychwynnol yn ystod cyfnod pedair wythnos a adwaenir fel y "cyfnod cyntaf ar gyfer cynrychiolaethau". Yna, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd ac yn ystyried p'un a ddylai ei gynigion gael eu diwygio yng ngoleuni'r cynrychiolaethau hynny.

3.5 Wedi hynny, yn ystod ail gam proses ymgynghori cyhoeddus y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ail adroddiad sy'n amlinellu ei gynigion ar gyfer etholaethau'r Senedd, a bydd yn gwahodd cynrychiolaethau i ymateb i'r ail adroddiad hwnnw yn ystod cyfnod pedair wythnos a adwaenir fel yr "ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau".

3.6 Mae paragraff 7(5)(a) Atodlen 1 y Bil yn darparu ar hyn o bryd fod rhaid i'r Comisiwn "*gyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd*" ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau. Mae'r Comisiwn yn awgrymu, ar y cam hwn, y dylai ei ddyletswydd fod i gyhoeddi cynrychiolaethau a dderbyniwyd *yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau* yn unig, yn hytrach na chyhoeddi'r *holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau*. I'r perwyl hwn, mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai paragraff 7(5)(a) gael ei ddiwygio trwy ychwanegu'r geiriau "*yn ystod y cyfnod hwnnw*" ar ôl y geiriad presennol a chyn yr atalnod.

3.7 Y prif reswm dros yr awgrym hwn yw, erbyn y cam hwn o'r broses, y bydd y Comisiwn eisoes wedi cyhoeddi cynrychiolaethau a dderbyniodd yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer cynrychiolaethau, gan fod hyn yn ofynnol gan baragraff 7(1)(a). Nid yw'n ymddangos bod llawer o reswm i fynnu bod y Comisiwn yn *ailgyhoeddi* unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniodd yn ystod y cyfnod *cyntaf* ar gyfer cynrychiolaethau ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau.

3.8 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai paragraff 7(5)(a) Atodlen 1 gael ei ddiwygio fel a ganlyn** (trwy ychwanegu'r testun sydd wedi'i danlinellu):

> "*(a) cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd <u>yn ystod y cyfnod hwnnw,</u>*"

**Atodlen 1 – cysylltu â'r cam adroddiad terfynol**

3.9 Fel y nodwyd uchod, ar ôl i'r Comisiwn gwblhau'r broses ymgynghori dau gam sy'n ofynnol o dan Atodlen 1, mae'n rhaid iddo gyhoeddi adroddiad terfynol yn amlinellu etholaethau'r Senedd ar gyfer yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl 6 Ebrill 2026. Yna, mae'n rhaid i benderfyniadau'r Comisiwn gael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

3.10 Ar hyn o bryd, mae paragraff 8(1) Atodlen 1 y Bil yn gosod rhwymedigaeth ar y Comisiwn i gyhoeddi ei adroddiad terfynol ar arolwg ffiniau 2026 erbyn 1 Ebrill 2025. Mae'r Comisiwn yn awgrymu nad yw geiriad y ddarpariaeth hon, fel y'i lluniwyd ar hyn o bryd, yn nodi'n amlwg y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau a'r broses o ystyried cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod yr ail gyfnod hwnnw.

3.11 Felly, gallai'r Bil fod yn haws ei ddeall petai'r testun sydd ym mharagraff 7(5) Atodlen 1 ar hyn o bryd yn cael ei symud i baragraff 8(1) (gan ailrifo'r is-baragraffau dilynol ym mharagraff 8 o ganlyniad). Byddai hyn yn creu cysylltiad mwy amlwg rhwng diwedd yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau a pharatoi a chyhoeddi'r adroddiad terfynol. Byddai hefyd yn adlewyrchu'r ymagwedd ym mharagraff 7(1) Atodlen 1, sy'n creu cysylltiad amlwg rhwng diwedd y cyfnod cyntaf ar gyfer cynrychiolaethau a pharatoi a chyhoeddi'r ail adroddiad.

3.12 Felly, mae'r Comisiwn yn awgrymu **y dylai paragraff 7(5) Atodlen 1 gael ei symud i baragraff 8, sy'n golygu y dylai'r ddau is-baragraff cyntaf ym mharagraff 8 ddarllen fel a ganlyn** (dangosir y newidiadau wedi'u tanlinellu) ac y dylai'r is-baragraffau dilynol ym mharagraff 8 gael eu hailrifo yn unol â hynny:

"*8* *(1) Ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) gyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw*[1]*,*

*(b) ystyried ei gynigion mewn perthynas â'r cynrychiolaethau hynny, ac*

*(c) os yw'n ystyried unrhyw newidiadau i'r cynigion a amlinellwyd yn yr ail adroddiad ar gyfer enwau etholaethau'r Senedd yn Gymraeg –*
*(i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag orgraff yr enwau arfaethedig, ac*
*(ii) ystyried unrhyw gynrychiolaethau a wnaed gan y Comisiynydd.*

*(2) Ar ôl cymryd y camau yn is-baragraff 1), a chyn 1 Ebrill 2025, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) lunio a chyhoeddi adroddiad terfynol, ac*

[1] Amlinellir y rhesymau dros yr ychwanegiad awgrymedig hwn ym mharagraffau 3.4 i 3.7 uchod

*(b) anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru*."

**Atodlen 2 – egwyddor newid lleiafsymiol i etholaethau'r Senedd**

3.13 Mae Atodlen 2 yn gosod proses ar gyfer arolygu etholaethau'r Senedd gan y Comisiwn yn gyfnodol ar ôl i arolwg ffiniau 2026 gael ei gwblhau. Mae Atodlen 2 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y bydd ei enw'n cael ei newid gan y Bil i Ddeddf Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru ac ati 2013) ("**Deddf 2013**") i'r perwyl hwn.

3.14 O dan y darpariaethau newydd, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gwblhau arolwg o etholaethau'r Senedd yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 30 Tachwedd 2028, ac wedi hynny unwaith ym mhob cyfnod o 8 mlynedd.[2]

3.15 Pan fydd yn cynnal arolwg yn unol â'r darpariaethau newydd yn Atodlen 2, tasg y Comisiwn fydd pennu p'un a ddylai ffiniau etholaethau'r Senedd newid.[3] Mae'n rhaid i benderfyniadau'r Comisiwn gael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru trwy gyfrwng Rheoliadau.[4]

3.16 Yn unol â'r darpariaethau newydd, pan fydd y Comisiwn yn penderfynu p'un a ddylai ffiniau etholaethau'r Senedd newid:

3.16.1 rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod pob etholaeth yn cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol – mewn geiriau eraill, nad yw nifer ei hetholwyr yn llai na 90% nac yn fwy na 110% o'r cwota etholiadol (sydd, yn ei dro, yn un rhan o un ar bymtheg o nifer yr etholwyr yng Nghymru);

3.16.2 rhaid i'r Comisiwn "*geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl*" i etholaethau'r Senedd fel yr oeddent yn bodoli ar ddechrau arolwg y Comisiwn;

3.16.3 rhaid i'r Comisiwn "*ystyried yr anghyfleustra a achosir trwy wneud newidiadau i etholaethau'r Senedd*"; a

3.16.4 chaiff y Comisiwn ystyried ffactorau penodol eraill a restrir, sef (i grynhoi'n fras) ffiniau llywodraeth leol, ystyriaethau daearyddol a chysylltiadau lleol.[5]

3.17 Mae'r Comisiwn o'r farn, yn ymarferol, bod y rhwymedigaeth i "*geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl*" i etholaethau presennol y Senedd yn debygol o arwain at bwyslais cul ar nifer yr etholwyr yn ei arolygon yn y dyfodol, ac felly arwain at ganlyniadau gwaeth wrth benderfynu ar ffiniau etholaethau'r Senedd.

3.18 Er enghraifft, os oes gan un o etholaethau presennol y Senedd nifer etholwyr sydd 110.5% o'r cwota etholiadol, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn leihau maint yr etholaeth honno er mwyn cydymffurfio â'i rwymedigaeth i gadw at yr amrediad

[2] Adran newydd arfaethedig 49A(1) a (5) Deddf 2013, i'w mewnosod trwy baragraff 1 Atodlen 2 i'r Bil
[3] Adran newydd arfaethedig 49A(2) Deddf 2013, i'w mewnosod trwy baragraff 1 Atodlen 2 i'r Bil
[4] Adran newydd arfaethedig 49J(1) Deddf 2013, i'w mewnosod trwy baragraff 1 Atodlen 2 i'r Bil
[5] Adran newydd arfaethedig 49C(1) i (3) Deddf 2013, i'w mewnosod trwy baragraff 1 Atodlen 2 i'r Bil

etholwyr statudol.[6] Ymagwedd gyffredinol y Comisiwn, a ddefnyddir yn ei arolygon o ffiniau etholiadol llywodraeth leol o dan delerau presennol Deddf 2013, fyddai ceisio dileu uned etholiadol llywodraeth leol bresennol o'r etholaeth sy'n rhy fawr, fel ward etholiadol prif ardal neu gymuned.[7] Wrth ddewis pa uned etholiadol i'w dileu, byddai'r Comisiwn yn pwyso a mesur ystyriaethau daearyddol a chysylltiadau lleol. Yn y modd hwn, byddai'r Comisiwn yn lleihau'r etholaeth sy'n rhy fawr mewn ffordd sy'n parchu ystyriaethau lleol penodol a byddai'n creu trefniadau etholaeth newydd sy'n cydymffurfio â'r cwota etholiadol, sy'n hawdd eu hadnabod yn ddaearyddol, ac yn osgoi'r dryswch sy'n gallu deillio'n aml o wahanol unedau etholiadol ar gyfer gwahanol etholiadau yn yr un ardal. Polisi cyffredinol y Comisiwn mewn arolygon etholiadol llywodraeth leol yw y bydd yn gwyro oddi wrth yr ymagwedd hon, ac yn "rhannu" uned etholiadol llywodraeth leol bresennol, dim ond pan fyddai'n amhosibl cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol fel arall.[8]

3.19 Efallai na fydd yr ymagwedd hon yn gyfreithlon o ran etholaethau'r Senedd os oes rhaid i'r Comisiwn "*geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl*" i'r etholaeth Senedd enghreifftiol a chanddi nifer etholwyr sydd 110.5% o'r cwota etholiadol. Y *newid lleiafsymiol* sy'n ofynnol i ddod â'r etholaeth honno o fewn yr amrediad etholwyr statudol yw dileu 0.5% o'r etholwyr o'r etholaeth. Yn ymarferol, mae'n annhebygol iawn y bydd uned etholiadol llywodraeth leol bresennol sy'n cynnwys yr union nifer honno o etholwyr, y gellir ei dileu o'r etholaeth mewn modd sy'n parchu cysylltiadau lleol ac yn creu ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod yn ddaearyddol. Yn lle hynny, mae'n debygol y bydd rhaid i'r Comisiwn rannu uned etholiadol llywodraeth leol bresennol, mewn modd efallai na fydd yn parchu ystyriaethau lleol penodol. Byddai hyn yn creu sefyllfa lle mae unedau etholiadol gwahanol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Senedd (yn ogystal ag etholiadau seneddol San Steffan), sy'n gallu creu dryswch i bleidleiswyr, ac sy'n debygol o fod yn ganlyniad gwaeth.

3.20 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu bod y rhwymedigaeth i "*geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl*" i etholaethau'r Senedd yn cael ei dileu o'r Bil** (trwy ddileu adran newydd arfaethedig 49C(2)(b)(i) Deddf 2013). Y rheswm am hyn yw oherwydd, ym marn y Comisiwn, bydd y rhwymedigaeth i "*roi ystyriaeth i'r anghyfleustra a achosir trwy wneud newidiadau i etholaethau'r Senedd*" a gynhwysir yn adran arfaethedig newydd 49C(2)(b)(ii) Deddf 2013 yn ddigonol ynddi'i hun i sicrhau bod y Comisiwn yn arfer gofal dyladwy cyn penderfynu y dylai ffiniau etholaethau'r Senedd gael eu newid; ac eto ni fydd y ddarpariaeth honno'n peryglu cynhyrchu'r canlyniadau annymunol a ddisgrifir uchod.

3.21 **Fel arall, mae'r Comisiwn yn awgrymu bod adran arfaethedig newydd 49C(2)(b) yn cael ei diwygio er mwyn i *ddymunoldeb* lleihau newid i etholaethau'r Senedd gymaint â phosibl fod yn ffactor perthnasol ar gyfer ystyriaeth y Comisiwn, ochr yn ochr â ffactorau eraill.** Bydd hyn yn galluogi'r ffactor hwn i gael ei ystyried, ar yr un pryd ag osgoi gosod rhwymedigaeth ar y

[6] Gweler uchod, paragraff 3.16.1

[7] Dyma ymarfer arferol y Comisiwn Ffiniau i Gymru ("**CFfG**") hefyd wrth arolygu etholaethau seneddol San Steffan o dan Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986 – gweler er enghraifft *Canllaw i'r Arolwg 2023* CFfG ym mharagraffau 3.8 i 3.10 a 3.14 i 3.15 (ar gael yn https://comffin-cymru.gov.uk/sites/bcomm/files/review/Guide%20to%20the%20Review%20C_0.pdf)

[8] Dyma bolisi cyffredinol y Comisiwn Ffiniau i Gymru hefyd – gweler uchod, troednodyn 7

Comisiwn i rannu unedau etholiadol llywodraeth leol presennol. Felly, mae'r Comisiwn yn awgrymu bod yr adran arfaethedig newydd 49C(2)(b) yn cael ei geirio fel a ganlyn (dangosir newidiadau wedi'u tanlinellu):

*"sut bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried –*

*(i) dymunoldeb lleihau newidiadau i etholaethau'r Senedd sy'n bodoli ar ddyddiad yr arolwg i'r eithaf, a'r*

*(ii) anghyfleustra a achosir trwy wneud newidiadau i etholaethau'r Senedd."*

**Atodlen 2 – rheoli amser mewn gwrandawiadau cyhoeddus**

3.22 Mae'r broses arolygu a osodir gan y darpariaethau yn Atodlen 2 y Bil yn cynnwys tri cham ymgynghori cyhoeddus gan y Comisiwn. I grynhoi, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad cychwynnol i ddechrau sy'n disgrifio unrhyw newidiadau y mae'n eu cynnig i etholaethau'r Senedd, ac yn gwahodd cynrychiolaethau i ymateb i'r adroddiad hwnnw yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer cynrychiolaethau. Yn ail, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau y mae'n eu derbyn, yna (yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau) bydd yn gwahodd cynrychiolaethau i ymateb i'r cynrychiolaethau hynny ac yn cynnal gwrandawiadau cyhoeddus. Yn drydydd, mae'n rhaid i'r Comisiwn baratoi a chyhoeddi ail adroddiad sy'n disgrifio unrhyw newidiadau y mae'n eu cynnig i etholaethau'r Senedd, a gwahodd cynrychiolaethau ychwanegol yn ystod cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau. Ar ôl y cyfnod olaf hwnnw ar gyfer cynrychiolaethau, bydd y Comisiwn yn paratoi a chyhoeddi ei adroddiad terfynol.

3.23 Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus y mae'n rhaid eu cynnal yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau yn cael eu cadeirio gan unigolyn a benodir gan y Comisiwn, a fydd yn penderfynu ar y weithdrefn a ddefnyddir i lywodraethu'r gwrandawiad.[9]

3.24 O dan adran newydd arfaethedig 49G(8) Deddf 2013, "*mae'n rhaid* [i'r Cadeirydd] *ganiatáu i gynrychiolaethau gael eu gwneud*" gan bleidiau gwleidyddol cymwys, yn ogystal ag "*unrhyw unigolyn arall y mae'r cadeirydd o'r farn bod ganddo fuddiant yn unrhyw un o'r cynigion y mae'r gwrandawiad yn ymwneud â nhw*". Fodd bynnag, mae adran newydd arfaethedig 49G(9)(c) yn datgan y caiff y cadeirydd, "*os oes angen oherwydd prinder amser*", benderfynu "*na chaniateir i* [unigolion â buddiant] *wneud cynrychiolaethau*".

3.25 Mae'r Comisiwn o'r farn bod perygl y gallai'r darpariaethau hyn, fel y maent wedi'u geirio ar hyn o bryd, greu disgwyliadau o hawl ddiamod i wneud cynrychiolaethau yn ei wrandawiadau cyhoeddus, yn enwedig ymhlith darllenwyr lleyg efallai na fyddant yn sylwi ar yr amod yn adran 49G(9)(c). Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai adran newydd arfaethedig 49G(8)(b) gael ei**

[9] Adran newydd arfaethedig 49G(5) a (6) Deddf 2013, i'w mewnosod trwy baragraff 1 Atodlen 2 i'r Bil

**hamodi'n benodol trwy groesgyfeirio i adran 49G(9),** er enghraifft trwy fewnosod y geiriau canlynol sydd wedi'u tanlinellu:

> "*(8) Mae'n rhaid i'r cadeirydd ganiatáu i gynrychiolaethau gael eu gwneud –*
>
> *[…]*
>
> *(b) (yn amodol ar adran 49G(9)) gan unrhyw unigolyn arall y mae'r cadeirydd o'r farn bod ganddo fuddiant yn unrhyw un o'r cynigion y mae'r gwrandawiad yn ymwneud â nhw."*

3.26 Mae hyn yn adlewyrchu'r ymagwedd ym mharagraff 7(b) Atodlen 2A Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (a fewnosodwyd yn y Ddeddf honno trwy ddiwygio deddfwriaeth yn 2011), y mae adran newydd arfaethedig 49G Deddf 2013 wedi cael ei modelu arno.

**Atodlen 2 – cynnwys yr ail adroddiad**

3.27 Yn dilyn yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn "*ystyried ei gynigion mewn perthynas â'r cynrychiolaethau a wnaed yn ystod y cyfnod cyntaf a'r ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau*", ac yna paratoi a chyhoeddi ail adroddiad sy'n amlinellu unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn yn eu cynnig i ffiniau ac enwau etholaethau'r Senedd.[10]

3.28 Yn benodol, mae adran newydd arfaethedig 49H(2) Deddf 2013 yn cynnig bod:

> "*rhaid i'r Comisiwn lunio ail adroddiad—*
>
> *(a) sy'n amlinellu unrhyw gynrychiolaethau [a dderbyniwyd i ymateb i gynrychiolaethau a wnaed yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer cynrychiolaethau];*
>
> *(b) sy'n cynnwys cofnodion o'r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd o dan adran 49G;*
>
> *(c) sy'n amlinellu –*
> *(i) cynigion y Comisiwn ar gyfer newid ffiniau ac enwau etholaethau'r Senedd, neu*
> *(ii) os nad yw'r Comisiwn yn ystyried bod unrhyw newid yn briodol, datganiad i'r perwyl hwnnw;*
>
> *(d) sy'n nodi manylion unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud i'r cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad cychwynnol, ac esboniad ynghylch pam y gwnaed y newidiadau hynny.*"

[10] Adran newydd arfaethedig 49H Deddf 2013, i'w mewnosod trwy baragraff 1 Atodlen 2 i'r Bil

3.29 Fel y mae wedi'i geirio ar hyn o bryd, bydd y ddarpariaeth hon yn mynnu bod ail adroddiad y Comisiwn yn *cynnwys* unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn *a* chofnodion o wrandawiadau cyhoeddus y Comisiwn. Felly, mae'r ail adroddiad yn debygol o fod yn ddogfen fawr iawn, a allai fod yn llai hwylus.

3.30 Felly, mae'r Comisiwn yn awgrymu, yn lle ffurfio rhan o'r ail adroddiad, y dylai'r cofnodion o'i wrandawiadau cyhoeddus a'r cynrychiolaethau y mae'n eu derbyn yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau gael eu cyhoeddi *ar wahân* ac *ar yr un pryd â'r* ail adroddiad, yn hytrach na ffurfio rhan o'r adroddiad hwnnw. Byddai hyn yn adlewyrchu adran 5(4B) a (5) Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i mewnosodwyd yn y Ddeddf honno trwy ddiwygio deddfwriaeth yn 2011 a 2020), sy'n darparu ar gyfer cyhoeddi cofnodion o wrandawiadau cyhoeddus *ochr yn ochr* ag unrhyw adroddiad cynigion diwygiedig y mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ei gyhoeddi wrth gynnal arolwg o etholaethau seneddol San Steffan.

3.31 Mae'r Comisiwn hefyd yn awgrymu, er mwyn osgoi amwysedd, y dylai ei rwymedigaeth i gyhoeddi cynrychiolaethau ar y cam hwn o'i broses arolygu gael ei chyfyngu'n benodol i'r cynrychiolaethau hynny a dderbyniodd *yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau*. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfyngiad penodol a osodir gan adran 49H(1)(a) ar rwymedigaeth y Comisiwn i ystyried cynrychiolaethau.

3.32 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai adran newydd arfaethedig 49H(2) a (3) Deddf 2013 gael ei geirio fel a ganlyn** (dangosir newidiadau wedi'u tanlinellu):

"*(2) Ar ôl cymryd y camau yn is-adran (1), mae'n rhaid i'r Comisiwn lunio ail adroddiad –*

*(a) sy'n amlinellu –*

*(i) cynigion y Comisiwn ar gyfer newid ffiniau ac enwau etholaethau'r Senedd, neu*

*(ii) os nad yw'r Comisiwn yn ystyried bod unrhyw newid yn briodol, datganiad i'r perwyl hwnnwl; ac*

*(b) sy'n nodi manylion unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud i'r cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad cychwynnol, ac esboniad ynghylch pam y gwnaed y newidiadau hynny.*

*(3) Mae'n rhaid i'r Comisiwn—*

*(a) gyhoeddi'r ail adroddiad,*

*(b) <u>cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau (o'r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a dderbyniwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau</u>;*

(c) *cyhoeddi cofnodion o'r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd o dan adran 49G;*

(d) *rhoi gwybod i unrhyw unigolyn sy'n briodol yn ei farn ef am sut i gael at yr adroddiad a'r cynrychiolaethau a'r cofnodion y mae'r Comisiwn wedi'u cyhoeddi;*

(e) *gwahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'r adroddiad, gan gynnwys cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynrychiolaethau a wnaed yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus, a*

(f) *rhoi gwybod i unrhyw unigolyn sy'n briodol yn ei farn ef am y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau.*"

**Atodlen 2 – cyhoeddi cynrychiolaethau ar ôl y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau**

3.33 Bydd adran newydd arfaethedig 49H(5) Deddf 2013 yn mynnu, ar ddiwedd y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau, bod y Comisiwn "*yn cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd*", "*yn ystyried ei gynigion mewn perthynas â'r cynrychiolaethau hynny*", ac (mewn rhai amgylchiadau) yn ymgynghori ymhellach â Chomisiynydd y Gymraeg. Wedi hynny, bydd y Comisiwn yn paratoi a chyhoeddi ei adroddiad terfynol.

3.34 Mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai ei rwymedigaeth i gyhoeddi cynrychiolaethau ar y cam hwn gael ei chyfyngu'n benodol i gynrychiolaethau a dderbyniodd *yn ystod y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau*. Y rheswm am hyn yw oherwydd y bydd y Comisiwn eisoes wedi cyhoeddi cynrychiolaethau a dderbyniodd yn ystod y cyfnod cyntaf ar gyfer cynrychiolaethau (ar ddiwedd y cyfnod hwnnw – gweler adran arfaethedig 49F(1) Deddf 2013) yn ogystal â chynrychiolaethau a dderbyniodd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau (ar ddiwedd y cyfnod hwnnw – gweler adran arfaethedig 49H(2)(a) fel y'i hamlinellir ar hyn o bryd yn Atodlen 2, a'r awgrymiadau ym mharagraffau 3.30 a 3.31 uchod). Felly, byddai gofyniad i'r Comisiwn gyhoeddi, ar ddiwedd y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau, yr holl gynrychiolaethau y mae wedi'u derbyn yn ystod yr arolwg cyfan yn golygu dyblygu ymdrech yn ddiangen.

3.35 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu bod adran arfaethedig newydd 49H(5)(a) Deddf 2013 yn cael ei diwygio fel a ganlyn** (dangosir ychwanegiadau wedi'u tanlinellu):

> "*cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw […]*".

**Atodlen 2 – cysylltu â'r cam adroddiad terfynol**

3.36 Ar ôl i'r Comisiwn gwblhau'r broses ymgynghori cyhoeddus tri cham sy'n ofynnol gan y darpariaethau a gynhwysir yn Atodlen 2, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad terfynol sy'n amlinellu unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i etholaethau'r Senedd. Yna, mae'n rhaid i unrhyw newidiadau a amlinellir yn adroddiad terfynol y Comisiwn gael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru trwy gyfrwng rheoliadau.

3.37 Ar hyn o bryd, gosodir y rhwymedigaeth i gyhoeddi'r adroddiad terfynol gan adran newydd arfaethedig 49I(1) Deddf 2013. Mae'r Comisiwn yn awgrymu nad yw'r ddarpariaeth honno, fel y mae wedi'i llunio ar hyn o bryd, yn nodi'n amlwg y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar ôl diwedd y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau a'r broses ar gyfer ystyried cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw.

3.38 Felly, gallai'r Bil fod yn haws ei ddeall petai'r testun sydd yn adran newydd arfaethedig 49H(5) ar hyn o bryd yn cael ei symud i adran 49I(1) (gan ailrifo'r is-adrannau dilynol yn adran 49I o ganlyniad). Byddai hyn yn adlewyrchu'r ymagwedd yn adrannau newydd arfaethedig 49F(1) a 49H(1), sy'n creu cysylltiadau amlwg â chamau blaenorol o'r broses ymgynghori.

3.39 Felly, mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai adran newydd arfaethedig 49H(5) Deddf 2013 **gael ei symud i adran 49I(1), sy'n golygu y dylai'r ddwy is-adran gyntaf yn adran 49I ddarllen fel a ganlyn** (dangosir y newidiadau wedi'u tanlinellu) ac y dylai'r is-adrannau dilynol yn adran 49I gael eu hailrifo yn unol â hynny:

"*49I* *(1) Ar ddiwedd y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) gyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw*[11]*,*

*(b) ystyried ei gynigion mewn perthynas â'r cynrychiolaethau hynny, ac*

*(c) os yw'n ystyried unrhyw newidiadau nad oeddent wedi'u hamlinellu yn yr ail adroddiad i enwau etholaethau'r Senedd –*

*(i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag orgraff yr enwau arfaethedig yn Gymraeg, ac*

*(ii) ystyried unrhyw gynrychiolaethau a wnaed gan y Comisiynydd.*

*(2) Ar ôl cymryd y camau yn is-adran (1), cyn 1 Rhagfyr 2028, a chyn 1 Rhagfyr bob wythfed flwyddyn wedi hynny, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) lunio a chyhoeddi adroddiad terfynol, ac*

*(b) anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru.*"

[11] Amlinellir y rhesymau dros yr ychwanegiad awgrymedig hwn ym mharagraff 3.34 uchod

**Atodlen 2 – cynnwys yr adroddiad terfynol**

3.40 Mae adran newydd arfaethedig 49I(2) Deddf 2013 (a fydd yn cael ei mewnosod trwy baragraff 1 Atodlen 2 y Bil) yn darparu bod rhaid i adroddiad terfynol y Comisiwn mewn arolwg o etholaethau'r Senedd:

"*(a)* *naill ai –*

*(i)* *amlinellu manylion unrhyw newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud i etholaethau'r Senedd, neu*

*(ii)* *ddatgan nad oes angen gwneud unrhyw newid i etholaethau'r Senedd*".

3.41 Mae adran newydd arfaethedig 49I(3) yn nodi ymhellach, os oes newidiadau i'w gwneud i ffiniau etholaethau'r Senedd, bod rhaid i adroddiad terfynol y Comisiwn amlinellu (ymhlith pethau eraill) "*ffiniau etholaethau'r Senedd sydd i'w newid*", yn ogystal ag enwau'r etholaethau hynny.

3.42 Yna, mae adran newydd arfaethedig 49J(1) yn darparu "*pan fydd adroddiad terfynol yn amlinellu newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud i etholaethau'r Senedd, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gweithredu'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn*".

3.43 Mae'r Comisiwn o'r farn, o ganlyniad i'r darpariaethau hyn, pan fydd rheoliadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 49J, na fydd y rheoliadau hynny'n gosod set newydd lawn o etholaethau'r Senedd. Yn lle hynny, bydd y rheoliadau hynny'n gwneud diwygiadau i drefniadau etholaethau presennol yn unig, fel sy'n angenrheidiol i weithredu'r newidiadau a amlinellir yn adroddiad terfynol y Comisiwn. Mae'n ymddangos bod hyn yn wir oherwydd:

3.43.1 bydd y rheoliadau'n *gweithredu penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn* yn unig;[12] a

3.43.2 bydd yr adroddiad terfynol yn *amlinellu manylion unrhyw newidiadau y mae'n ofynnol eu gwneud i etholaethau'r Senedd*, a bydd yn disgrifio ffiniau ac enwau etholaethau'r Senedd *sydd i'w newid*, fel sy'n ofynnol gan y darpariaethau arfaethedig newydd.[13]

3.44 Mae'r cyfyngiad hwn ar gwmpas rheoliadau a wneir o dan adran 49J(1) yn cael effeithiau cynyddol ar y Bil yn ehangach. Er enghraifft, byddai cymal 2 y Bil yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y fath fodd ag y byddai'n diffinio etholaethau'r Senedd fel "*yr etholaethau a nodir mewn rheoliadau o dan adran 49J*", pan wneir set gyntaf o reoliadau o dan y ddarpariaeth honno (gyda rheoliadau a wneir yn dilyn arolwg ffiniau 2026 yn effeithiol at y diben hwn *hyd nes* y gwneir y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J yn unig). Mae'r dull hwn, efallai, yn anwybyddu'r ffaith na fydd y set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J o reidrwydd yn

[12] Gweler uchod, paragraff 3.42
[13] Gweler uchod, paragraffau 3.40 a 3.41

diffinio set gyflawn o etholaethau'r Senedd ar gyfer Cymru (ond yn hytrach yn debygol o ddiwygio trefniadau a wnaed yn dilyn arolwg ffiniau 2026 yn unig) – fel na ellir defnyddio'r set gyntaf o reoliadau o dan adran 49J fel yr unig bwynt cyfeirio at gyfer etholaethau'r Senedd.

3.45 Mae pryder tebyg yn effeithio ar baragraff 1(b) Atodlen 1 i'r Bil, yn ogystal â'r diffiniad o "etholaeth y Senedd" yn adran newydd arfaethedig 49L(1) Deddf 2013 (a fewnosodir trwy adran 1 Atodlen 2 i'r Bil) a'r ddarpariaeth drosiannol ym mharagraff 3 Atodlen 2 i'r Bil.

3.46 Mae'r Comisiwn yn awgrymu mai'r ffordd hawsaf o oresgyn y broblem hon yw os bydd yn ofynnol i'r Comisiwn amlinellu *set lawn* o etholaethau'r Senedd ar gyfer Cymru yn ei adroddiad terfynol yn dilyn arolwg o dan y darpariaethau newydd yn Neddf 2013. Ar y sail hon, pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan adran 49J "*sy'n gweithredu'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn*", *byddai'r* rheoliadau hynny'n gosod set newydd gyflawn o drefniadau etholaethau'r Senedd. Byddai hyn yn datrys y problemau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 3.44 i 3.45 uchod, ac yn osgoi'r angen am groesgyfeirio at reoliadau hŷn er mwyn cael trosolwg cyflawn o etholaethau'r Senedd.

3.47 Mae'r ymagwedd arfaethedig hon yn adlewyrchu geiriad adran 3(1)(a) Deddf Etholaethau Seneddol 1986, sy'n llywodraethu cynnwys adroddiadau a baratoir gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn dilyn ei arolygon o etholaethau seneddol San Steffan o dan y Ddeddf honno.

3.48 Felly, mae'r Comisiwn yn **awgrymu bod adran newydd arfaethedig 49I(2)(a) Deddf 2013 yn cael ei diwygio fel a ganlyn** (dangosir y geiriad newydd wedi'i danlinellu):

"*(2) Mae'n rhaid i'r adroddiad terfynol –*

*(a) naill ai –*

*(i) amlinellu'r <u>etholaethau y dylai Cymru gael ei rhannu iddynt at ddibenion ethol Aelodau o'r Senedd</u>; neu*

*(ii) ddatgan nad oes angen gwneud unrhyw newid i etholaethau'r Senedd […]*".

**Crynodeb – addasiadau awgrymedig y Comisiwn i'r Bil**

3.49 Yn gyntaf, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai paragraff 7(5)(a) Atodlen 1 gael ei ddiwygio fel a ganlyn** (trwy ychwanegu'r testun sydd wedi'i danlinellu):

"*(a) cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd <u>yn ystod y cyfnod hwnnw,</u>*"

3.50 Yn ail, mae'r Comisiwn yn awgrymu **y dylai paragraff 7(5) Atodlen 1 gael ei symud i baragraff 8 Atodlen 1, sy'n golygu y dylai'r ddau is-baragraff cyntaf ym mharagraff 8 ddarllen fel a ganlyn** (dangosir y newidiadau wedi'u tanlinellu) ac y dylai'r is-baragraffau dilynol ym mharagraff 8 gael eu hailrifo yn unol â hynny:

"*8 (1) Ar ddiwedd yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) gyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw*[14]*,*

*(b) ystyried ei gynigion mewn perthynas â'r cynrychiolaethau hynny, ac*

*(c) os yw'n ystyried unrhyw newidiadau i'r cynigion a amlinellwyd yn yr ail adroddiad ar gyfer enwau etholaethau'r Senedd yn Gymraeg –*
- *(i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag orgraff yr enwau arfaethedig, ac*
- *(ii) ystyried unrhyw gynrychiolaethau a wnaed gan y Comisiynydd.*

*(2) Ar ôl cymryd y camau yn is-baragraff 1), a chyn 1 Ebrill 2025, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) lunio a chyhoeddi adroddiad terfynol, ac*

*(b) anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru*."

3.51 Yn drydydd, mae'r Comisiwn yn **awgrymu bod y rhwymedigaeth i "*geisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosibl*" i etholaethau'r Senedd yn cael ei dileu o'r Bil** (trwy ddileu adran newydd arfaethedig 49C(2)(b)(i) Deddf 2013 o baragraff 1 Atodlen 2 i'r Bil). **Fel arall, mae'r Comisiwn yn awgrymu bod adran arfaethedig newydd 49C(2)(b) yn cael ei diwygio er mwyn i *ddymunoldeb* lleihau newid i etholaethau'r Senedd gymaint â phosibl fod yn ffactor perthnasol ar gyfer ystyriaeth y Comisiwn, ochr yn ochr â ffactorau eraill**, fel bod adran newydd arfaethedig 49C(2)(b) yn cael ei geirio fel a ganlyn (dangosir y newidiadau wedi'u tanlinellu):

"*sut bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried –*

*(i) dymunoldeb lleihau newidiadau i etholaethau'r Senedd sy'n bodoli ar ddyddiad yr arolwg i'r eithaf, a'r*

*(ii) anghyfleustra a achosir trwy wneud newidiadau i etholaethau'r Senedd.*"

---

[14] Mae'r ychwanegiad hwn o bum gair yr un fath â'r diwygiad a awgrymir ym mharagraff 3.49 uchod

3.52 Yn bedwerydd, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai adran newydd arfaethedig 49G(8)(b) yn Neddf 2013 gael ei hamodi'n benodol trwy groesgyfeirio i adran 49G(9),** er enghraifft trwy fewnosod y geiriau canlynol sydd wedi'u tanlinellu:

> "*(8) Mae'n rhaid i'r cadeirydd ganiatáu i gynrychiolaethau gael eu gwneud –*
>
> *[…]*
>
> *(b) (yn amodol ar adran 49G(9)) gan unrhyw unigolyn arall y mae'r cadeirydd o'r farn bod ganddo fuddiant yn unrhyw un o'r cynigion y mae'r gwrandawiad yn ymwneud â nhw."*

3.53 Yn bumed, mae'r Comisiwn yn **awgrymu y dylai adran newydd arfaethedig 49H(2) a (3) Deddf 2013 gael ei geirio fel a ganlyn** (dangosir newidiadau wedi'u tanlinellu):

> "*(2) Ar ôl cymryd y camau yn is-adran (1), mae'n rhaid i'r Comisiwn lunio ail adroddiad –*
>
> *(a) sy'n amlinellu –*
>
> *(i) cynigion y Comisiwn ar gyfer newid ffiniau ac enwau etholaethau'r Senedd, neu*
>
> *(ii) os nad yw'r Comisiwn yn ystyried bod unrhyw newid yn briodol, datganiad i'r perwyl hwnnw; ac*
>
> *(b) sy'n nodi manylion unrhyw newidiadau y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud i'r cynigion a amlinellwyd yn yr adroddiad cychwynnol, ac esboniad pam y gwnaed y newidiadau hynny.*
>
> *(3) Mae'n rhaid i'r Comisiwn—*
>
> *(a) gyhoeddi'r ail adroddiad,*
>
> *(b) cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau (o'r math a ddisgrifir yn adran 49F(2)(b)) a dderbyniwyd yn ystod yr ail gyfnod ar gyfer cynrychiolaethau;*
>
> *(c) cyhoeddi cofnodion o'r gwrandawiadau cyhoeddus a gynhaliwyd o dan adran 49G;*
>
> *(d) rhoi gwybod i unrhyw unigolyn sy'n briodol yn ei farn ef am sut i gyrchu'r adroddiad a'r cynrychiolaethau a'r cofnodion y mae'r Comisiwn wedi'u cyhoeddi;*
>
> *(e) gwahodd cynrychiolaethau ynglŷn â'r adroddiad, gan gynnwys*

*cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynrychiolaethau a wnaed yn ystod y gwrandawiadau cyhoeddus, a*

*(f)* *rhoi gwybod i unrhyw unigolyn sy'n briodol yn ei farn ef am y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau.*"

3.54 Yn chweched, mae'r Comisiwn yn **awgrymu bod adran arfaethedig newydd 49H(5)(a) Deddf 2013 yn cael ei diwygio fel a ganlyn** (dangosir ychwanegiadau wedi'u tanlinellu):

"*cyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw […]*".

3.55 Yn seithfed, mae'r Comisiwn yn awgrymu y dylai adran newydd arfaethedig 49H(5) Deddf 2013 **gael ei symud i adran 49I(1), sy'n golygu y dylai'r ddwy is-adran gyntaf yn adran 49I ddarllen fel a ganlyn** (dangosir y newidiadau wedi'u tanlinellu) ac y dylai'r is-adrannau dilynol yn adran 49I gael eu hailrifo yn unol â hynny:

"*49I* *(1) Ar ddiwedd y cyfnod olaf ar gyfer cynrychiolaethau, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) gyhoeddi unrhyw gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw[15],*

*(b) ystyried ei gynigion mewn perthynas â'r cynrychiolaethau hynny, ac*

*(c) os yw'n ystyried unrhyw newidiadau nad oeddent wedi'u hamlinellu yn yr ail adroddiad i enwau etholaethau'r Senedd –*

*(i) ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ynglŷn ag orgraff yr enwau arfaethedig yn Gymraeg, ac*

*(ii) ystyried unrhyw gynrychiolaethau a wnaed gan y Comisiynydd.*

*(2) Ar ôl cymryd y camau yn is-adran (1), cyn 1 Rhagfyr 2028, a chyn 1 Rhagfyr bob wythfed flwyddyn wedi hynny, mae'n rhaid i'r Comisiwn –*

*(a) lunio a chyhoeddi adroddiad terfynol, ac*

*(b) anfon yr adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru.*"

3.56 Yn wythfed, mae'r Comisiwn yn **awgrymu bod adran newydd arfaethedig 49I(2)(a) Deddf 2013 yn cael ei diwygio fel a ganlyn** (dangosir y geiriad newydd wedi'i danlinellu):

"*(2)* *Mae'n rhaid i'r adroddiad terfynol –*

---

[15] Mae'r ychwanegiad hwn o bum gair yr un fath â'r diwygiad a awgrymir ym mharagraff 3.54 uchod

*(a) naill ai –*

*(i)* *amlinellu'r* <u>*etholaethau y dylai Cymru gael ei rhannu iddynt at ddibenion ethol Aelodau o'r Senedd*</u>*; neu*

*(ii)* *ddatgan nad oes angen gwneud unrhyw newid i etholaethau'r Senedd […]*'.